



PONTARDAWE

.....



CYFLWYNIAD



Mae ardal gymunedol Pontardawe'n cynnwys adrannau etholiadol Pontardawe, Rhos, Trebannws ac Allt-wen.

Saif tref Pontardawe ar lan afon Tawe. Yn Saesneg yn aml, defnyddir y llysenw 'Ponty' amdani. Tirnod y dref yw meindwr nodwyddaidd Eglwys Sant Pedr sy'n 197 troedfedd o uchder.

Tref Pontardawe yw anheddiad trydydd mwyaf y fwrdeistref sirol a'r anheddiad mwyaf yn yr ardal sy'n union gyfagos iddo. Mae canol y dref yn darparu amrywiaeth o wasanaethau manwerthu, cyfleusterau hamdden a sefydliadau addysgol. Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe yng nghanol y dref, wedi ennill enw da fel un o ganolfannau diwylliannol gorau de Cymru, ac mae'n denu amrywiaeth eang o artistiaid o bedwar ban byd.

Mae nifer o brosiectau adfywio wedi'u cwblhau yng nghanol y dref, gan gynnwys adnewyddu cyfleusterau presennol a gwella manau cyhoeddus, creu manau cyhoeddus y gellir eu defnyddio ar gyfer gwyliau a digwyddiadau'r dref, a gynhelir trwy gydol y flwyddyn.

Mae gan ardal gymunedol Pontardawe ddigonedd o fannau agored ac mae rhwydwaith da o lwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio. Mae Coetiroedd Cwm Du a Phlanhigfa Glanrhyd yn union i'r gogledd-orllewin o Bontardawe, o fewn pellter cerdded i ganol y dref.

Ar gyrion Pontardawe mae Parc Glantawe, rhwng Afon Tawe a Chamlas Tawe. Mae'r parc hefyd yn cynnwys nifer o lwybrau, megis Llwybr 43 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Sustrans a Llwybr Illtud Sant, sy'n llwybr pellter hir.





CANFYDDIADAU ALLWEDDOL O’N HYMARFERION
CYNNWYS AC YMCHWIL:

.....



CYMDEITHASOL



Yn ôl ymatebwyr o ardal Pontardawe, lles cymdeithasol yw cynhwysiad cymdeithasol, sef ymdeimlad o berthyn i deulu estynedig, grŵp o ffrindiau neu gymuned ffisegol. Roedd y cydbwysedd bywyd/gwaith a chwarae rôl ystyrlon/weithredol yn y gymdeithas hefyd yn cael eu gwerthfawrogi, yn ogystal â chwaraeon. Gellid gwella lles cymdeithasol i'r rhai sydd mewn cyflogaeth trwy sicrhau mwy o amser rhydd a chydbwysedd bywyd/gwaith gwell.





ECONOMAIDD



Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn yr ardal hon yn fwy tebygol na phobl o rannau eraill y fwrdeistref sirol o ddiffinio lles economaidd fel bod â digon o amser i fwynhau bywyd i'r eithaf, yn hytrach nag ymdopi'n unig. Ystyrid mai meddu ar swydd dda oedd y ffactor cyfrannol pwysicaf, ynghyd ag osgoi dyledion a bod â digon o arian.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad diwethaf (2011) y bu 3.8% o ddiweithdra yn ardal Pontardawe a bod 23.2% o'r rhai a oedd yn 16 oed ac yn hŷn heb unrhyw gymwysterau, sy'n is na ffigur Cymru gyfan, sef 25.9%.

O'r 4,904 o gartrefi yn yr ardal, nodwyd bod 2,982 (60.8%) yn ddifreintiedig, gan ddefnyddio un neu fwy o'r 4 dimensiwn amddifadedd canlynol: cyflogaeth, addysg, iechyd/anabledd a gorboblogi mewn aelwydydd (Cyfrifiad 2011).






Roedd ymatebion i'r arolwg ynglŷn â lles amgylcheddol yn canolbwyntio'n bennaf ar fannau agored glân a diogel. Yn ardal gymunedol Pontardawe mae chwe Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig sy'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd pwysig megis glaswelltir, dolydd a choetir heb eu gwella.

Mae Camlas Tawe'n bwysig i fywyd gwyllt, yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol ac yn darparu llwybr cerdded/beicio hyfryd o Glydach i Bontardawe.

Ymysg y ffactorau sy'n cyfrannu at les, nodwyd agosrwydd at draethau, coetir a bryniau, gallu gweld y sêr yn y nos a mynd am dro yng nghefn gwlad. Mae coetiroedd yr ardal yn darparu arddangosfa ysblennydd o glychau'r gog a phren marw, sydd oll yn adnoddau gwych i gncellod y coed a bywyd gwyllt arall y coetir.

Hefyd ystyrid bod beicio'n weithgaredd pwysig, ynghyd â thyfu llysiau a gweithgareddau i deuluoedd. Roedd tipio anghyfreithlon, llygredd diwydiannol a llifogydd achlysurol yn destunau pryder i bobl. Hefyd roedd trefnau pori amhriodol a beiciau sgramblo oddi ar y ffordd, yn enwedig ar dir comin, yn bryderon allweddol.





I bobl a oedd yn byw yn yr ardal gymunedol, roedd lles diwylliannol yn canolbwyntio ar fynediad i theatrau, sinemâu a llyfrgelloedd a darparu amrywiaeth o gelfyddydau yn y gymuned. Cafodd y digwyddiadau a'r gweithgareddau yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe eu canmol yn eang a nodwyd bod y ganolfan yn hwb diwylliannol i bobl o bob rhan o'r ardal.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn rheoli un llyfrgell yn yr ardal. Ceir 25 o adeiladau rhestredig yn yr ardal gymunedol.

Mae naw parc/lle chwarae yn yr ardal ar hyn o bryd. Mae gan bob un o'r rhain gyfarpar chwarae sefydlog ac mae gan un ohonynt ardal gemau amldeffnydd. Mae gan dref Pontardawe un maes hamdden sy'n cynnwys caeau chwaraeon. Mae cyfleusterau chwaraeon a hamdden yng Nghanolfan Hamdden Pontardawe sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau. Mae darpariaeth hamdden arall yn cynnwys pwll nofio a chwrsgolff.

O ran y Gymraeg, mae 25.8% (3,335) o breswylwyr ym Mhontardawe'n gallu siarad Cymraeg.

Yn debyg i ardaloedd cymunedol eraill, mae nifer y bobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn ardal gymunedol Pontardawe yn fach, gan adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol ar draws y bwrdeistref sirol.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad ostyngiad yng nghanran y bobl a oedd yn disgrifio eu hunain yn Gristnogion, o 74% yn 2001 i 61% yn 2011. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd amlwg yn nifer y bobl a oedd yn nodi 'dim crefydd', o 18% i 31%.





**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

